


CADW PELLTER CYMDEITHASOL

Newid mewn symudiadau o'r llinell sylfaen, cyfartaledd awdurdodau lleol Cymru



Archebion parseli bwyd a wnaed gyda chyflenwyr:

- **7,572** hyd at 27 Ebrill
- Gan gynnwys **78** a dderbyniwyd dros y penwythnos 25/26 Ebrill

Nifer y danfoniadau y ceisiwyd eu gwneud:

- **8,666** hyd at 23 Ebrill (roedd 3,000 yn cael eu hailddosbarthu)
- **98%** wedi'u rhoi i breswilydd neu eu gadael ar garreg y drws

Y GRONFA CYMORTH DEWISOL

Rhwng 18 Mawrth a 24 Ebrill:


Gwnaed **8,626** o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ymwneud â COVID-19, gwerth cyfanswm o **£534,380**

Dechreuwyd cofnodi ar 18 Mawrth. Mae'r rhesymau cysylltiedig â COVID-19 y mae ymgeiswyr yn eu rhoi yn cynnwys

- Gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau gwaith
- Oedi o ran hawlio budd-dal
- Costau ynni/bwyd uwch (teulu gartref)

Hyd yma, mae'r cynnydd mewn ceisiadau yn rhannol o ganlyniad i geisiadau amlach gan bobl sydd wedi hawlio Taliadau Cymorth mewn Argyfwng o'r blaen.

Nifer ddyddiol o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng




CYMORTH I FUSNESAU

Mae awdurdodau lleol hyd yma wedi rhoi **40,000** o grantiau ardrethi busnes, cyfanswm gwerth bron i **£0.5 biliwn**.

Mae **1,608** o geisiadau, cyfanswm gwerth **£103m**, wedi'u gwneud i Gynllun Benthyciad Busnes COVID-19 gan y Banc Datblygu. Hyd yma mae'r Banc wedi cymeradwyo **585** o geisiadau gwerth **£36m**.

O ran y Gronfa Cadernid Economaidd, hyd yma mae dros **6,500** o geisiadau gan ficrofusnesau gwerth bron i **£63.5m** wedi'u gwneud, a bron i **2,500** o geisiadau gan fusnesau bach a chanolig gwerth **£138.6m**. Mae'r Gronfa Fusnes Fwy wedi derbyn gwerth dros **£26m** o geisiadau, gyda cheisiadau pellach yn cael eu prosesu sy'n dangos y bydd ceisiadau yn debygol o gynyddu i tua **£28m**.


Nifer a swm y grantiau ardrethi busnes a roddwyd



ADDYSG

Nifer o blant mewn lleoliadau awdurdod lleol

● Cyfanswm y plant sy'n bresennol ● Nifer o blant i weithwyr hanfodol sy'n bresennol



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Data ar 25/04/20